IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

30 EBRILL 2024

PRESENNOL Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):
P. Cooper J.K. Howell

Arsylwyr (Yn y Siambr):
Cynghorydd W.T. Evans

Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol (Yn y Siambr):
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
A. Morgan, Ymarferydd Iechyd Yr Amgylchedd

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
A. Rees, Swyddog Trwyddedu;
K. Smith, Swyddog Trwyddedu;
S. Martin, Cyfreithiwr;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democratiadd.

Hefyd yn bresennol (Rhithwir):

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 11:50yb

[Sylwer: Er mwyn caniatáu i gynrychiolwyr yr awdurdod cyfrifol gael eglurhad ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd ar ran yr ymgeisydd, Parkdean Caravan Parks Limited, yn ystod y 12 awr diwethaf, cafodd y cyfarfod ei ohirio am 10:10yb a'i ailymgynnull am 10:40yb].

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. CAIS AM DRWYDDED BERSONOL

Yn dilyn cais ar lafar a wnaed gan Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd ar ran y Tîm Llygredd i ohirio'r cyfarfod am 30 munud i ganiatáu i wybodaeth a ddarparwyd ar ran yr ymgeisydd, Parkdean Caravan Parks Limited, yn ystod y 12 awr diwethaf gael ei hegluro, heb unrhyw wrthwynebiadau gan y partïon eraill i'r cais hwn, bu i'r Is-bwyllgor:
BENDERFYNU'N UNFRYDOL gohirio'r cyfarfod am 30 munud er mwyn galluogi cynrychiolwyr yr awdurdod cyfrifol i gael eglurhad gan yr ymgeisydd.

Ar ôl y toriad a chyn ystyried y cais, gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd Trwyddedu i roi gwybod i bawb a oedd yn bresennol ar lafar am ganlyniad y drafodaeth, a dywedodd yr Arweinydd Trwyddedu ei bod wedi arwain yr ymgeisydd i wneud newidiadau i'r cais fel a ganlyn:-

- Dileu'r ardaloedd awyr agored o gynlluniau'r cais.

- Dileu'r cais i ymestyn Dramâu, Ffilmiau, Cerddoriaeth Fyw, Cerddoriaeth a Recordiwyd a Pherfformiadau Dawns yn yr awyr agored.

Cadarnhaodd cynrychiolydd yr ymgeisydd a oedd yn bresennol y newidiadau uchod i'r cais.

Rhoddodd Cyfreithiwr y Cyngor wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod.

Nododd yr Is-bwyllgor y cais diwygiedig ynghyd â'r dogfennau canlynol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A – Copi o'r cais gwreiddiol;
Atodiad B – Copi o drwydded gyfredol y safle;
Atodiad C – Sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu;
Atodiad D – Sylwadau Iechyd yr Amgylchedd;
Atodiad E – Sylwadau eraill.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at y sylwadau, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad C i'r adroddiad gan gyfeirio at y cais diwygiedig. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau a'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Cadarnhaodd Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd ar ran y Tîm Llygredd a oedd wedi cyflwyno sylwadau y manylir arnynt yn Atodiad D i'r adroddiad ei fod wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl yn sgil y newidiadau i'r cais. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau a'r holl bartïon ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Tîm Llygredd.

Roedd nifer o wrthwynebwyr yn bresennol a chyfeiriodd y gwrthwynebwyr at y wybodaeth a nodir yn Atodiad E yr adroddiad, gan gyfeirio at y cais fel y'i diwygiwyd. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau a'r holl bartïon holi'r gwrthwynebwyr ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd at y cais fel y'i diwygiwyd, ynghyd ag amod arfaethedig na fydd unrhyw focsio yn digwydd ar y safle.

Yn ogystal â'r cais fel y'i diwygiwyd, ac er mwyn helpu i gyfathrebu â thrigolion lleol yn y dyfodol, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y byddai'r ymgeisydd yn gwneud y canlynol:

1) Rhoi gwybod i Gyngor Cymuned Pentywyn pan fydd yr ymgeisydd yn cyhoeddi Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro;

2) Rhoi rhif ffôn cyswllt i Gyngor Cymuned Pentywyn ar gyfer y swyddfa ddiogelwch ar y safle.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau a'r holl bartïon ofyn cwestiynau i gynrychiolydd yr ymgeisydd.

Felly bu i'r Is-bwyllgor

BENDERFYNU'N UNFRYDOL cynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol.

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron, fod y cais, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei ganiatáu ar unwaith ar y telerau diwygiedig ac yn amodol ar amod y drwydded (awgrymwyd ar ran yr ymgeisydd) na fydd unrhyw focsio yn digwydd ar y safle.

RHESYMAU

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Mae'r ymgeisydd wedi newid y cais drwy ddileu:

2.
   a) yr ardaloedd awyr agored o gynlluniau'r cais;

   b) awyr Dileu'r cais i ymestyn Dramâu, Ffilmiau, Cerddoriaeth Fyw, Cerddoriaeth a Recordiwyd a Pherfformiadau Dawns yn yr awyr agored.

2. Arweiniodd y cais, fel y'i diwygiwyd, at ddileu gwrthwynebiad y Tîm Llygredd

Felly, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod ei benderfyniad (a amlinellir uchod) yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

CADEIRYDD **DYDDIAD**